Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Adroddiad Archwilio Blynyddol

Ebrill 2003 i Fawrth 2004

wrexham
COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Adroddiad Blynyddol - Rhagair

Rhagair gan y Cynghorydd Mike Edwards, Pencampwr Archwilio
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Mae'r llynedd wedi gweld y broses o archwilio'n datblygu ymhellach o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gydag aelodau etholedig yn dod yn fwy cyfarwydd â'u rolau dan y trefniadau rheolaeth wleidyddol newydd. Fel Pencampwr Archwilio Wrecsam, gobeithiaf y bydd ein hadroddiad blynyddol cyntaf yn caniatáu i'r Cyngor fyfyrio ar waith y pwyllgorau archwilio yn y flwyddyn ddiwethaf ac ystyried rhai o'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Cydnabydda'r adroddiad waith caled aelodau'r pwyllgorau archwilio a'r swyddogion sydd wedi cefnogi'r broses. Fodd bynnag, mae'n cydnabod hefyd bod angen mwy o waith yn y flwyddyn nesaf. Cynlluniwyd nifer o newidiadau a gwelliannau i wella cynnydd y broses archwilio a helpu aelodau i adeiladu ar eu gallu i wneud cyfraniad sylweddol at wella bywydau pobl Wrecsam. Dylem gofio bod llawer o aelodau newydd yn dod yn rhan o'r broses archwilio am y tro cyntaf ac felly byddwn yn cynllunio rhaglen gynhwysfawr i ddatblygu a hyfforddi aelodau etholedig.

Anelwn at archwiliadau mwy agored a chynnwys a chysylltu â'r cyhoedd felly. Gobeithiwn ganolbwyntio ar y materion mawr a fydd yn gwneud gwir wahaniaeth i bobl Wrecsam.

Mae blwyddyn gyffrous ac anodd o'n blaenau ac rydym yn ei chroesawu.

Y Cynghorydd Mike Edwards
Pencampwr Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Rhagair gan Isobel Garner, Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Roeddwn yn falch iawn o'r cyfle i gyfrannu at yr adroddiad hwn.

Mae archwilio'n chwarae rôl hanfodol yn y trefniadau gwleidyddol newydd, yn arbennig o ran gwella gwasanaethau'r Cyngor a helpu i lunio polisïau'r Cyngor.

Mae'r pum pwyllgor archwilio wedi ymgymryd ag ystod eang o waith yn y flwyddyn ddiwethaf. Rwyf wedi bod yn arbennig o falch o'r ffordd y mae aelodau archwilio wedi dangos tystiolaeth o'u sgiliau ymchwilio, yn ogystal â'r amser a'r ymdrech maent yn eu rhoi i'r gwaith hwn.

Roedd archwiliad o'n swyddogaeth archwilio gan Gomisiwn Archwilio Cymru'n bositif a chalonogol, yn amlygu'r cynnydd a wnaed. Yn benodol, defnyddiwyd y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio Materion Corfforedig wrth arolygu materion mynediad i Fynwent Wrecsam yn genedlaethol fel enghraifft o archwiliad llwyddiannus gan y Ganolfan dros Archwiliad Cyhoeddus. Mae hyn oll yn helpu i godi proffil proses archwilio Wrecsam a'r Awdurdod yn gyffredinol.

Fodd bynnag, mae gwaith pellach i'w wneud a gwyddaf fod y pwyllgorau archwilio'n cynllunio gwelliannau pellach i'r ffordd y gweithiant, yn arbennig mewn perthynas â chysylltu â'r cyhoedd a gwella sgiliau aelodau etholedig i'w helpu i gyflawni eu rôl. I helpu gyda hyn, cytunwyd i ddyrannu cefnogaeth a chyllid yn benodol i gefnogi'r swyddogaeth archwilio.

Disgwyliaf i'r broses archwilio chwarae rôl bwysig yn narpariaeth agenda gwella'r Awdurdod eleni ac yn y blynyddoedd i ddod.

Isobel Garner
Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Adroddiad Archwilio Blynyddol
Ebrill 2003 i Fawrth 2004

Dyma'r adroddiad archwilio blynyddol cyntaf yn dilyn y diwygiadau i'r cyfansoddiad y cytunodd y Cyngor arno ym mis Medi 2003. Yn y blynyddoedd nesaf, bwriedir cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor yn ei gyfarfod cyntaf yn dilyn y cyfarfod blynyddol.

EDRYCH YN ÔL

1. Cefndir

1.1 Cytunodd y Cyngor ar y trefniadau rheolaeth wleidyddol presennol ym mis Mai 2002. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys pum pwyllgor archwilio cyfredol y Cyngor a phenodi cyd-gadeiryddion ar gyfer pob pwyllgor. Mae aelodaeth y pwyllgorau archwilio'n wleidyddol gytbwys.

1.2 Yn ogystal, mae cyd-gadeiryddion y pwyllgorau'n cyfarfod yn rheolaidd fel grŵp cydlynu i ddyrannu cyfrifoldeb am faterion nad ydynt yn dod o fewn dyletswydd pwyllgor penodol ac i arolygu datblygiad parhaus y swyddogaeth archwilio.

2. Cefnogaeth Archwilio

2.1 Ym mis Hydref 2002, cytunodd y Bwrdd Gweithredol i secondio swyddog am gyfnod cychwynnol o ddeuddeng mis i gefnogi'r swyddogaeth archwilio, yn arbennig mewn perthynas â datblygu rhaglenni gwaith ac asesu'r gofynion cefnogaeth tymor hwy (yn y gorffennol, yr unig gefnogaeth uniongyrchol gan swyddogion oedd cyfarwyddwyr yn ymgymryd â'r rôl o gydlynwyr arweiniol ar gyfer pob pwyllgor archwilio). Secondiwyd swyddog o Adran Datblygiad Corfforedig yr Awdurdod ym mis Ionawr 2003 i gynnig y gefnogaeth benodedig gyntaf i'r broses archwilio.

3. Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella

3.1 Nodwyd archwilio fel un o flaenoriaethau gwella allweddol y Cyngor yng Nghynllun Gwella 2003/2004. Datblygwyd cynllun gweithredu i ymdrin â'r gwendidau canfyddedig yn y broses gyfredol gan ganolbwyntio ar:-

- newidiadau i'r cyfansoddiad
- arolwg o'r strwythur, trefniadau a phrosesau presennol
- cynhyrchu cynllun symud ymlaen
- rhaglen waith a arweinir gan aelodau
- rhaglen datblygu aelodau'n seiliedig ar sgiliau
- arolwg o'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r broses archwilio
- gwella cysylltiadau â'r cyhoedd a phartneriaid yn y maes archwilio
- codi ymwybyddiaeth staff o'r broses archwilio

3.2 Awgrymodd arolwg y Comisiwn Archwilio o drefniadau archwilio Wrecsam (cyfeiriwch at adran 5, tudalen 4) faes gwella ychwanegol:-

- Cefnogaeth TG i aelodau a defnydd aelodau o TG

4. Cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu

4.1 Cafwyd gwelliannau sylweddol mewn sawl un o'r meysydd uchod. Mae rhai o'r rhai mwyaf allweddol yn cynnwys:-

- arolygu cyfansoddiad y Cyngor ym mis Medi 2003 i alluogi datblygiad proses archwilio a arweinir fwy gan aelodau
- datblygu nodiadau cyfarwyddyd ysgrifenedig i helpu aelodau drwy'r amryw gamau o arolwg archwilio
- cynhyrchu cynllun symud ymlaen, yn amlygu'r digwyddiadau, penderfyniadau, cynlluniau, prosiectau allweddol a effeithioddd ar y fwrdeistref yn 2003/4 (er bod angen mwy o waith mewn sicrhau fersiwn mwy cynhwysfawr ar gyfer 2004/5)
- gwnaed archwiliad o sgiliau aelodau yn 2003 a helpodd i ddatblygu'r rhaglen sefydlu aelodau yn dilyn etholiadau fis Mehefin 2004. Yn ogystal, sefydlwyd grŵp aelodau/swyddogion i gynorthwyo â'r broses
- clustnodwyd cyllid i sefydlu tîm cefnogi archwiliadau parhaol dan gyfrifoldeb y Prif Swyddog Cyfraith a Gweinyddiaeth
- gwelwyd enghreifftiau positif o ran cysylltu â'r cyhoedd a chyrff allanol yn y broses archwilio (ceir mwy o fanylion yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn sy'n arolygu gwaith pob pwyllgor archwilio)

4.2 Amlygir gwelliannau cynlluniedig pellach yn y darn o'r enw "Edrych Ymlaen".

5. Adroddiad y Comisiwn Archwilio

5.1 Ymgymerodd y Comisiwn Archwilio ag arolwg o drefniadau archwilio'r Awdurdod ym mis Rhagfyr 2003. Daethant i'w casgliadau drwy sylwi ar gyfarfodydd pwyllgorau archwilio, cyfweld ag aelodau a swyddogion a darllen dogfennau allweddol. Ar y cyfan, roedd yr adroddiad yn bositif iawn ac yn cynnwys y sylwadau canlynol:-

- Cydnabyddodd Cynllun Gwella 2003/2004 yr angen i gryfhau'r swyddogaeth archwilio a threfniadau i gysylltu'n allanol a herio. Mae'r Cyngor wedi gweithredu i gyflawni hyn ac wedi ymdrin â'r materion a nodwyd yn ein gwaith archwilio blaenorol.
- Cafwyd ymroddiad cryf gan swyddogion ac aelodau i barhau i ddatblygu a gwella'r swyddogaeth archwilio, yn arbennig o ran sicrhau yr arweinir hi gan aelodau a'i bod yn fwy cysylltiedig â budd-ddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau'r Cyngor.

5.2 Amlygwyd sawl maes o arfer positif yn yr adroddiad hefyd:-

- Datblygwyd proses cynllunio gwaith systematig a chynhwysfawr ar gyfer archwilio, sy'n gysylltiedig ag agenda a gweithgareddau ehangach y Cyngor.
- Rôl aelodau mewn cynllunio gwaith a gosod agenda ar gyfer y llwyth gwaith archwilio.
- Mae'r broses o drefnu gwaith archwilio'n drefnus a chydlynol e.e. arolwg y Pwyllgor Archwilio Ariannol o ad-drefnu ysgolion uwchradd Wrecsam.
- Mae budd-ddeiliaid allanol (gan gynnwys carfanau pwyso) wedi bod yn rhan o roi tystiolaeth yn uniongyrchol i ymchwiliadau'r pwyllgorau archwilio, megis yr ymchwiliad i'r cynigion ailgylchu gwastraff ac adfer ynni.
- Ymgynghorwyd â defnyddwyr a budd-ddeiliaid ynghylch materion sy'n destun ymchwiliad, er enghraifft, yr arolwg i fynediad i fynwent Wrecsam.

- Roedd awyrgylch y cyfarfodydd archwilio'n anffurfiol ac yn annog cyfraniadau gan y rhai a oedd yn bresennol.
- Mae lleoliadau ac amserau cyfarfodydd yn amrywio ac yn cynnwys ymweliadau safle a chyfarfodydd mewn sawl ysgol. Anela'r trefniadau hyn at gynnwys ystod ehangach o fudd-ddeiliaid.

5.3 Fodd bynnag, gwnaed nifer o argymhellion er mwyn gwella'r broses ymhellach, sef:-

- sicrhau bod lefel y gefnogaeth gan swyddogion yn ddigonol
- darparu hyfforddiant i gyd-gadeiryddion mewn perthynas â'u rôl o gadeirio cyfarfodydd archwilio
- gwerthuso'r costau a'r buddion o gynnal cyfarfodydd ar wahanol adegau a gwahanol leoliadau
- sicrhau bod prosesau yn eu lle i ganlyn camau gweithredu o gyfarfodydd archwilio blaenorol
- archwilio dulliau o ddosbarthu gwaith papur a gwybodaeth yn fwy effeithlon

6. Rhwydweithio

6.1 Sefydlwyd rhwydwaith o swyddogion cefnogaeth archwilio yng ngogledd Cymru yn ystod y flwyddyn i ganiatáu i swyddogion o Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam gyfarfod yn rheolaidd i drafod materion a phroblemau cyffredin yn ymwneud â'r swyddogaeth archwilio. Awgrymwyd y dylid ffurfio rhwydwaith tebyg ar gyfer aelodau.

6.2 Aeth nifer fechan o aelodau i gynhadledd archwilio i aelodau ym Mhrestatyn ym mis Ionawr 2004 lle cafwyd cyflwyniadau gan y Comisiwn Archwilio, Syniad, y Ganolfan dros Archwiliad Cyhoeddus a chadeirydd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cynulliad Cymru. Teimlodd aelodau a oedd yn bresennol fod digwyddiadau fel hyn yn ddefnyddiol a dylid eu cefnogi yn y dyfodol.

6.3 Yn genedlaethol, crëwyd y Ganolfan dros Archwiliad Cyhoeddus. Ei hamcan yw hybu gwerth archwiliad mewn llywodraeth fodern ac effeithiol – peri i swyddogion fod yn atebol a chreu deialog adeiladol rhwng y cyhoedd a'i gynrychiolwyr etholedig – gwella ansawdd gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r corff hwn yn helpu i rannu arfer gorau drwy gronfa ddata o arolygon a wnaed gan awdurdodau ledled Cymru a Lloegr.

EDRYCH YMLAEN

1.1 Teimlwyd y bu cryn dipyn o gynnydd o ran y ffordd y gweithredir y broses archwilio, barn a gefnogir gan yr adroddiad bennaf bositif gan y Comisiwn Archwilio ar drefniadau archwilio Wrecsam. Fodd bynnag, cynlluniwyd gwelliannau pellach yn ystod y flwyddyn nesaf a fydd yn adeiladu ar y llwyddiant hwn, gan gynnwys:-

- datblygu rhaglenni gwaith a arweinir gan aelodau ar gyfer pob pwyllgor archwilio sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau corfforedig yr Awdurdod a phryderon y cyhoedd
- datblygu cynllun symud ymlaen yr Awdurdod ymhellach
- datblygu rhaglen hyfforddiant strwythuredig i sicrhau bod gan aelodau'r wybodaeth, sgiliau a'r technegau i gyflawni arolygon archwilio'n effeithiol
- sefydlu cyllideb archwilio barhaus a digonol i sicrhau bod gan y broses archwilio'r adnoddau hanfodol i gefnogi a gweithredu'n effeithiol
- codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a staff o'r swyddogaeth archwilio, gan gynnwys gynhyrchu taflenni gwybodaeth, ayb
- datblygu ffyrdd mwy dyfeisgar o gysylltu â'r cyhoedd a chyrff allanol drwy gynnal mwy o gyfarfodydd i ffwrdd o Neuadd y Dref er enghraifft a'u cynnwys nhw'n uniongyrchol mewn arolygon archwilio
- datblygu tudalen we archwilio i wella cyfathrebiadau aelodau a rhannu a gwella mynediad i wybodaeth
- annog aelodau i gymryd rôl fwy ragweithiol mewn arolygon drwy gyflawni eu hymchwil eu hunain, er enghraifft
- gwella rôl rheoli perfformiad y broses archwilio, yn arbennig o ran blaenoriaethau gwella corfforedig yr Awdurdod
- datblygu prosesau i sicrhau y monitrir camau gweithredu ac argymhellion sy'n deillio o waith archwilio o ran eu gweithrediad a'u heffeithiolrwydd
- llunio dangoswyr perfformiad a thargedau i fesur effeithiolrwydd y broses archwilio a'i chefnogaeth

Atodiad 1

PWYLLGOR ARCHWILIO PLANT A PHOBL IFANC

AELODAETH 2003/2004

Cyd-Gadeiryddion (2):	Aled R Roberts	H T Williams
Aelodau (12):	R W Caldecott	M G Morris
	George James	M H R Moysen
	P Jeffares	D N Price
	A G Jones	Mrs J M B Roberts
	J A Kelly	Christopher M Stubbs
	Mrs Sandy Mewies	M J Vickers
Cynrychiolwyr o'r Eglwys/Rhieni Lywodraethwyr (4):	Mr M Greaney	Mr P R Williams
	Mrs J A Whitley	Mrs S F C Winson
Cydlynydd Arweiniol:	Keith Lea Rheolwr Archwilio	
Gwasanaethodd y cynghorwyr hyn ar y pwyllgor yn 2003/04 hefyd:	G W Griffiths	Ron Prince
	Sheila Griffiths	

AMODAU GORCHWYL

Gwasanaethau a Swyddogaethau:-

- **Gwasanaethau Cymdeithasol** gan gynnwys: diogelu plant, plant mewn angen, iechyd plant, plant ag anableddau, iechyd meddwl plant a phobl ifanc, plant y gofelir amdanynt, maethu a meithrin
- **Addysg** gan gynnwys: blynyddoedd cynnar, addysg gynradd, uwchradd ac ôl-16, gwasanaethau perthynol gan gynnwys anghenion arbennig, cludiant ysgol, llyfrgell ysgol, prydau ysgol, adeiladau/offer ysgolion, derbyniadau a grantiau myfyrwyr
- **Gwasanaeth Ieuenctid a'r Gwasanaeth Troseddau Pobl Ifanc**
- **Hamdden i'r Rhai dan 18**

Prif Gynlluniau a Strategaethau:-

- Cynllun Cefnogi Ymddygiad, Cynllun Gwasanaethau Plant, Cynllun Datblygu Blynyddoedd Cynnar, Cynllun Strategol Addysg, Cynllun Trefnu Ysgolion, Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid, Partneriaeth y Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, Cynllun Strategol y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc

1. Mae'r Pwyllgor Archwilio Plant a Phobl Ifanc yn cynnwys 14 aelod (gan gynnwys cyd-gadeiryddion), ynghyd â 4 cynrychiolydd o'r eglwys/rhieni lywodraethwyr. Bu i'r pwyllgor gyfarfod 11 tro yn y flwyddyn ac roedd cyfartaledd y presenoldeb oddeutu 60%.

2. Prif ganolbwynt gwaith y pwyllgor archwilio yn y flwyddyn ddiwethaf, o bosibl ar draul meysydd eraill dyletswyddau'r pwyllgorau, oedd materion addysg, yn benodol y rhai sy'n perthyn i'r prif brosiectau cyfalaf yn gysylltiedig ag ad-drefnu ysgolion uwchradd Wrecsam ac ysgolion cynradd Rhos a Choedpoeth. Roedd y meysydd eraill o waith y pwyllgor a archwiliwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:-

   - Cludiant ysgol (gweler isod hefyd)
   - Gwasanaeth prydau ysgol
   - Ysgol–y–Grango – Cynllun gweithredu ysgol a neuadd chwaraeon
   - Gwasanaethau cefnogi addysgol
   - Cyllid ôl-16
   - Cyllid ysgolion cynradd
   - Elfen addysgol o'r rhaglen cyfalaf nad yw'n gyfalaf tai
   - Ffigyrau/tueddiadau poblogaeth ysgolion
   - Perfformiad addysgol

3. Arweiniodd y pwyllgor hwn y ffordd o ran defnyddio gweithgorau i gynyddu gallu'r pwyllgor i archwilio materion penodol. Sefydlwyd un grŵp, yn cynnwys 4 aelod (y Cynghorwyr P. Jeffares, A.G. Jones, M.G. Morris a M.J. Vickers), i arolygu effeithiolrwydd clybiau gwaith cartref a gwneud argymhellion ynghylch darpariaeth yn y dyfodol.

4. Yn ogystal, sefydlwyd gweithgor pellach yn cynnwys y Cynghorwyr Aled R. Roberts, H.T. Williams, P. Jeffares, A.G. Jones, M.H.R. Moysen a Mrs. J. Whiteley i archwilio materion yn ymwneud â pholisïau cludiant ysgol, yn cynnwys pryderon am orwario a pheidio â gweithredu polisïau ledled y fwrdeistref. Profodd yr arolwg hwn i fod yn ddarn pwysig o waith ac mae ei gwmpas yn cynnwys cludiant ysgol, polisïau derbyniadau a theithiau peryglus. Bydd angen gwaith pellach ar yr arolwg yn dilyn etholiadau Mehefin 2004.

5. Mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi cynnal ei gyfarfodydd tu allan i Neuadd y Dref mewn sawl ysgol yn yr ardal yn rheolaidd. Mae hyn wedi caniatáu mwy o ryngweithiad gan staff ysgolion, yn arbennig penaethiaid. Mae wedi caniatáu i aelodau weld llawer o'r problemau, yn enwedig y rhai sy'n perthyn i gyflwr adeiladau ysgol, yn uniongyrchol.

6 O ran elfennau anaddysgol y gwaith a wnaed gan y pwyllgor, archwiliwyd y materion canlynol:-

   - Arolwg gwerth gorau o blant mewn angen
   - Pwysau gwario ar y Gwasanaethau Cymdeithasol
   - Cynllun Gwasanaethau Plant 2002/6

Atodiad 2

PWYLLGOR ARCHWILIO MATERION CORFFOREDIG

AELODAETH 2003/2004

Cyd-Gadeiryddion (2):	M J Edwards	David Rogers
Aelodau (8):	Mrs Mollie Beresford	M H R Moysen
	R Mark Davies	F A Nichols
	R B Evans	J Gordon S Roberts
	A G Jones	Cyril Williams
Cydlynydd Arweiniol:	Terry Garner Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Hamdden	
Gwasanaethodd y cynghorwyr canlynol ar y pwyllgor yn ystod 2003/04 hefyd:	M G Morris	Mrs Sandy Mewies

AMODAU GORCHWYL

Gwasanaeth a Swyddogaethau

- **Polisi strategol cyffredinol** gan gynnwys: cynllun gwella, strategaeth gymunedol, strategaeth gorfforedig, rheoli perfformiad, eiddo, ynni a rheoli asedau, cyfathrebu/ cysylltiadau cyhoeddus, mynediad y cwsmer i wasanaethau, caffaeliad, troseddau ac anhrefn, pobl ifanc sy'n niwsans, materion sy'n perthyn i'r heddlu
- **Personél** gan gynnwys: cyfle cyfartal, materion staffio, iechyd a diogelwch
- **TG a Thelathrebu**
- **Cyfreithiol** gan gynnwys: materion cyfreithiol, hyfforddi a datblygu aelodau, gwasanaethau pwyllgorau a maerol, gwasanaethau cofrestru a'r crwner

Prif Gynlluniau a Strategaethau

- Strategaeth Gymunedol, Datganiad y Strategaeth Gorfforedig, Cynllun Gwella, Strategaeth Lleihau Troseddu ac Anhrefn, Cynllun yr Iaith Gymraeg, cynlluniau rheoli asedau

1. Mae'r Pwyllgor Archwilio Materion Corfforedig yn cynnwys 10 aelod (gan gynnwys cyd-gadeiryddion). Bu i'r pwyllgor gyfarfod 12 tro yn y flwyddyn. Cyfartaledd y presenoldeb oedd 72%.

2. Mae gan y pwyllgor hwn ddyletswyddau eang, yn delio â llawer o'r polisïau sy'n effeithio ar yr Awdurdod a chasglu eitemau nad ydynt yn cydweddu â dyletswyddau pwyllgorau archwilio eraill. Adlewyrchir hyn yn yr ystod eang o eitemau gwaith a archwilir yn ystod y flwyddyn. Dyma'r prif rai:

- Polisïau sy'n ymwneud â mynediad cerbydau i Fynwent Wrecsam
- Materion personél, yn enwedig o ran hysbysebu swyddi gwag a lefelau gor-amser
- Adleoli rhagor o reolwyr patrolio cymunedol
- Arolwg gwerth gorau o fynediad i wasanaethau
- Arolwg gwerth gorau o gaffaeliad
- Strategaeth Gweithredu E-Lywodraeth
- Cynllun Rheoli Asedau Corfforedig 2004/2009
- Polisïau caffael a chael gwared ar dreftadaeth
- Newidiadau i gyfansoddiad y Cyngor, yn enwedig o ran trefniadau archwilio
- Rhaglen hyfforddi a datblygu aelodau

3. Yn ogystal, sefydlwyd tasglu yn cynnwys y Cynghorwyr M.J. Edwards, Mark R. Davies ac R.B. Evans i arolygu ymatebion y Cyngor i adroddiadau am bobl ifanc sy'n niwsans, y gefnogaeth a roddir i rieni plant sy'n niwsans/sydd mewn perygl o fod yn niwsans a rôl ysgolion mewn codi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o fod yn niwsans ac, yn benodol, yr effaith ddrwg y mae'n ei chael ar unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae gwaith y grŵp hwn yn parhau gyda golwg ar adrodd yn ôl i'r prif bwyllgor â'i ganlyniadau ac argymhellion cyn diwedd 2004.

4. Rhaid rhoi sylw arbennig i'r gwaith a wneir mewn perthynas â mynediad cerbydau i Fynwent Wrecsam. Gwnaed ymdrech amlwg i gysylltu â'r cyhoedd, yn enwedig y rhai a oedd yn debygol o gael eu heffeithio gan unrhyw newidiadau. Rhoddwyd sylw i gyfarfodydd y pwyllgor archwilio yn y wasg leol hefyd. Yn ogystal, arddangoswyd hysbysiadau dwyieithog yn hysbysebu'r cyfarfodydd archwilio mewn amryw leoliadau, megis llyfrgelloedd a swyddfeydd tai, ynghyd â'r fynwent ei hun. Cynhyrchwyd a dosbarthwyd fersiynau Braille a sain o'r hysbysiadau hefyd a rhoddwyd nhw i gyrff gwirfoddol sy'n cynrychioli grwpiau anabl.

5. Nododd y Comisiwn Archwilio a'r Ganolfan dros Archwiliad Cyhoeddus yr arolwg hwn fel enghraifft o arfer gorau o ran cysylltu â'r cyhoedd wrth archwilio.

Atodiad 3

PWYLLGOR ARCHWILIO AMGYLCHEDD AC ADFYWIAD

AELODAETH 2003/2004

Cyd-Gadeiryddion (2) :	R B Evans	J Woodrow
Aelodau (12) :	R W Caldecott	Mrs J M B Roberts
	Mrs June Fearnall	David Rogers
	Sylvia Greenaway	J R Skelland
	Sheila Grifftiths	Christopher M Stubbs
	M Hughes	M J Vickers
	I Roberts	Cyril Williams
Cydlynydd Arweiniol	Malcolm Russell Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Personol	

AMODAU GORCHWYL

Gwasanaethau a Swyddogaethau

- **Cynllunio** gan gynnwys: materion cynllunio lleol, rhanbarthol a strwythurol, rheoli adeiladu, cadwraeth
- **Rheoli gwastraff** gan gynnwys: casglu sbwriel, glanhau strydoedd, cael gwared ar wastraff, ailgylchu
- **Priffyrdd** gan gynnwys: cynnal a chadw a gwella ffyrdd a llwybrau troed, goleuadau stryd
- **Cludiant** gan gynnwys: diogelwch y ffyrdd, cludiant cyhoeddus, meysydd parcio
- **Diogelu'r cyhoedd** gan gynnwys: hybu iechyd, diogelwch bwyd, safonau masnach, wardeiniaid anifeiliaid
- **Datblygiad economaidd** gan gynnwys: datblygiad ac adfywiad gwledig a threfol, twristiaeth, cefnogi busnes
- **Llyfrgelloedd**

Prif Gynlluniau a Strategaethau

- Gorfodi Cyfraith Bwyd, Cynllun Cludiant Lleol, Cynllun Datblygiad Unedol, Strategaeth Datblygiad Economaidd, Strategaeth Rheoli Gwastraff

1. Mae'r Pwyllgor Archwilio Amgylchedd ac Adfywiad yn cynnwys 14 aelod (gan gynnwys cyd-gadeiryddion). Bu i'r pwyllgor gyfarfod 12 gwaith yn y flwyddyn. Cyfartaledd y ffigyrau presenoldeb oedd 69%.

2. Canolbwyntiodd gwaith y pwyllgor ar dri phrif faes yn ystod y flwyddyn:-

    - Rheoli gwastraff
    - Ffyrdd arfaethedig ar gyfer ffordd gyswllt Ystad Ddiwydiannol Wrecsam
    - Strategaeth Datblygiad Economaidd 2004/2007

3. Cafwyd enghreifftiau o arfer da o ran y prosesau a gymerwyd gan y pwyllgor wrth arolygu:-

- Wrth arolygu'r opsiynau ar gael i'r Awdurdod o ran sut i ymdrin â'r gwastraff sy'n weddill ar ôl ailgylchu, cynhwysodd y pwyllgor grwpiau allanol a oedd â buddiant yn y materion, gan gynnwys Trefnu Cymunedol Cymru, yr Ymgyrch dros Ddiogelu Cymru Wledig, Grŵp Gweithredu ar Gwastraff Gororau'r Dyfrdwy a Grŵp Gweithredu Rhiwabon. Rhoddodd y grwpiau hyn eu barn i'r aelodau a chynnig cynigion eraill i'r rhai a gynigiwyd gan swyddogion y Cyngor. Mynegodd nifer o aelodau fod ganddynt fwy o ddealltwriaeth o'r materion a'r dewisiadau yn dilyn yr arolwg hwn.
- Dylid cydnabod datblygiad strategaeth datblygiad economaidd ar gyfer 2004/2007 fel arfer da o ran cynnwys aelodau archwilio'n ddigon cynnar yn y broses er mwyn iddynt ddylanwadu ar ei chynnwys (mynegodd nifer o aelodau eu rhwystredigaeth at beidio â bod yn rhan o ddatblygu polisi a strategaeth yn ddigon cynnar yn gyffredinol).
- Gwnaed y cais i arolygu'r teithiau arfaethedig ar gyfer ffordd gyswllt i Ystad Ddiwydiannol Wrecsam gan aelod archwilio unigol a chytunwyd arno gan yr holl bwyllgor. Dengys hyn y gall aelodau lunio a dylanwadu ar eu rhaglen waith archwilio a sicrhau yr ystyrir y materion y maent yn teimlo eu bod yn bwysig fel rhan o'r broses archwilio
- Defnyddio ymweliadau safle i weld y materion dan arolwg e.e. wynebau ffyrdd preswyl a rennir, cynigion ar gyfer y ffordd gyswllt

4 Roedd y materion eraill a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio Amgylchedd ac Adfywiad yn cynnwys:-

- Safonau ac amlder cynnal a chadw ffyrdd
- Cyllid ar gyfer ffyrdd
- Selio wynebau ffyrdd a phalmentydd
- Strategaeth gwastraff ddrafft
- Arolwg gwerth gorau o lyfrgelloedd
- Cynllun Dyffryn Moss
- Wynebau ffyrdd preswyl a rennir

Atodiad 4

PWYLLGOR ARCHWILIO ARIANNOL

AELODAETH 2003/2004

Cyd-Gadeiryddion (2):	JJ Colbert	M J Vickers
Aelodau (8):	D Broderick	R B Evans
	George J Crisp	G W Griffiths
	F K Edwards	P Jeffares
	M J Edwards	J Woodrow
Cydlynydd Arweiniol:	Phil Walton Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Amgylcheddol	
Gwasanaethodd y cynghorwyr canlynol ar y pwyllgor yn ystod 2003/04 hefyd:	Sheila Griffiths	George D James

AMODAU GORCHWYL

Gwasanaethau a Swyddogaethau

- **Cyllid**: Agweddau ariannol yn ymwneud ag unrhyw wasanaeth, prosiect neu swyddogaeth, adnoddau a statws ariannol y Cyngor, strategaethau buddsoddi, benthyg ac yswirio'r Cyngor, materion ariannol unrhyw gyd-fentrau, partneriaethau neu gwmnïau y mae gan y Cyngor fuddiant ynddynt
- **Archwilio**: Hybu rheolaeth fewnol, creu diwylliant gwrthdwyll ac arolwg o reoliadau ariannol, monitro'r archwilwyr gan gynnwys arolwg o gynlluniau archwilio, penodi archwilydd allanol, arolygu perfformiad yr holl archwilwyr a chyfathrebiadau rhwng archwilwyr a staff, derbyn llythyr archwilio blynyddol i aelodau oddi wrth yr archwilydd allanol cyn ei gyflwyniad i'r Bwrdd Gweithredol

Prif Gynlluniau a Strategaethau

- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, cynlluniau cyllideb, rheoliadau ariannol, cynlluniau archwilio

1. Mae'r Pwyllgor Archwilio Ariannol yn cynnwys 10 aelod (gan gynnwys cyd-gadeiryddion). Bu i'r pwyllgor gyfarfod 19 tro yn y flwyddyn a chyfartaledd y presenoldeb oedd 71%.

2. Llywodraethodd yr arolwg o ad-drefnu ysgolion uwchradd Wrecsam waith y pwyllgor yn ystod y flwyddyn, yn enwedig rhwng Hydref 2003 a Chwefror 2004. Trafodwyd y mater hwn yn 14 o'r 19 cyfarfod a phenodwyd 9 o'r rhain ar gyfer y mater hwn yn unig. Gofynnwyd i aelodau archwilio arolygu agweddau ariannol y prosiect, gyda'r bwriad o sefydlu pam y cynyddodd y costau cymaint a pha wersi y gellid eu dysgu ar gyfer y dyfodol. Adroddwyd canlyniadau'r pwyllgor ger bron y Cyngor ar 12 Chwefror 2004.

3. Dyma'r arolwg archwilio mwyaf a'r pwysicaf o bosibl hyd yn hyn a nodwyd nifer o wersi gwerthfawr a allai helpu i wella'r broses archwilio yn y dyfodol:-

- Gosod terfynau ar yr arolwg o'r cychwyn er mwyn sicrhau bod aelodau a swyddogion yn canolbwyntio ar y materion allweddol
- Cafodd aelodau cwestiynau a baratowyd ymlaen llaw'n ddefnyddiol
- Helpodd cyfarfodydd rheolaidd rhwng cyd-gadeiryddion a swyddogion i gadw'r arolwg i'w amserlen a chynorthwyodd gyda rhannu gwybodaeth
- Bu gofyn am gryn dipyn o gefnogaeth swyddogion ar gyfer arolwg mor gymhleth a phroffil uchel. Ni ddylid tan-amcangyfrif y gefnogaeth sydd ei hangen er mwyn cael arolwg effeithol ac o fewn amser
- Mae gofyn i aelodau alw ar gyngor ac ymgynghoriaeth allanol yn ôl yr angen

4. Roedd y materion eraill a ystyriodd y pwyllgor archwilio hwn yn cynnwys:-

- Proses cynllunio cyllideb 2004/7
- Fformat y llyfr cyllideb
- Datganiad o gyfrifon 2002/3
- Strategaeth rheoli'r trysorlys
- System benthyciadau call
- Arolwg o brosesau ariannol craidd a rheoliadau ariannol
- Yswiriant
- Rheoliadau cyfrifon ac archwiliadau
- Arolwg o'r polisi caffael cerbydau
- Arolwg o'r rhaglen gyfalaf
- Dyledwyr
- Canolfannau cymunedol
- Prosiect theatr
- Diwrnod Rasys Wrecsam
- Ôl-ddyledion rhent
- Arolwg o fudd-daliadau tai/gwrthdwyll

Atodiad 5

PWYLLGOR ARCHWILIO MATERION CYMDEITHASOL, IECHYD A THAI

AELODAETH 2003/2004

Cyd-Gadeiryddion (2)	J W Coleman OBE	Mrs J M Lowe
Aelodau (10)	J J Colbert	J Gordon S Roberts
	George J Crisp	Mrs J M B Roberts
	D J Griffiths	J R Skelland
	K H Hett	Mrs J Trommelen
	George D James	Cyril Williams
Cydlynydd Arweiniol:	Martyn Scholes Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Gwybodaeth	
Gwasanaethodd y cynghorydd canlynol ar y pwyllgor yn ystod 2003/04 hefyd:	F A Nichols	

AMODAU GORCHWYL

Gwasanaethau a Swyddogaethau

- **Gwasanaethau Cymdeithasol** gan gynnwys: asesiadau, gofal cartref, preswyl a dydd, oedolion ag anawsterau dysgu/corfforol, iechyd meddwl, cam-drin cyffuriau/alcohol, hawliau lles, prydau ar glud, therapi galwedigaethol.
- **Tai** gan gynnwys: dyraniadau, casglu rhent, ôl-ddyledion, eiddo gwag, trwsio a gwella, digartrefedd, llety cysgodol, safleoedd i deithwyr, galwad gofal.
- **Hamdden** gan gynnwys: canolfannau hamdden a chyfleusterau chwaraeon, celfyddydau ac adloniant, amgueddfeydd, datblygu chwaraeon.
- **Iechyd** gan gynnwys: hybu iechyd, materion y GIG/Bwrdd Iechyd lleol.

Prif Gynlluniau a Strategaethau

- Strategaeth Iechyd a Lles, Cynllun Gofal Cymdeithasol, polisïau a strategaethau tai.

1. Mae 12 aelod (gan gynnwys cyd-gadeiryddion) yn rhan o'r Pwyllgor Archwilio Materion Cymdeithasol, Iechyd a Thai. Bu i'r pwyllgor gyfarfod 11 tro yn ystod y flwyddyn ac roedd cyfartaledd y presenoldeb yn 70 %.

2. Mae gan y pwyllgor hwn ddyletswyddau eang a adlewyrchir yn yr ystod amrywiol o faterion a archwiliwyd yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, yn gyffredinol, canolbwyntiodd y rhan fwyaf o waith y pwyllgor hwn ar faterion y gwasanaethau cymdeithasol a thai.

3. Unwaith eto, ceir enghreifftiau o arfer da'n dod o'r gwaith a wnaed gan y pwyllgor hwn. Er enghraifft, wrth arolygu polisïau dyrannu tai, rhoddwyd gwybodaeth gynhwysfawr i aelodau mewn perthynas â pholisïau cyfredol, deddfwriaeth briodol, enghreifftiau o'r

hyn mae awdurdodau eraill yn ei wneud, ayb sydd wedi eu galluogi i gael mewnbwn ystyrlon i ddatblygiad polisïau pellach.

4. Yn ystod yr arolwg o'r meini prawf cymhwyster mewn perthynas ag asesu darpar ddefnyddwyr y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, cafodd aelodau wybodaeth gynhwysfawr am y dewisiadau sy'n agored iddynt a'u goblygiadau, yn enwedig y goblygiadau ariannol. Trefnwyd gweithdai'n defnyddio astudiaethau achos go iawn i helpu aelodau i gael mewnwelediad i'r materion a'r problemau a wynebir wrth wneud y penderfyniadau hyn.

5. Mae'r materion eraill a ystyriwyd yn cynnwys:-

- Ystyried adroddiad gan yr ymgynghorwyr annibynnol Chapman Hendy ar y SLlU Tai a'r ffatri ffenestri
- Tai cysgodol
- Strategaeth digartrefedd
- Materion gorfodi'n ymwneud â thai amlbreswyl
- Grant arbennig cyd-weithio hyblyg
- Arolwg rheoli o wasanaethau i oedolion iau
- Cynllun grant arbennig i ofalwyr 2002/3
- Cynllun taliadau uniongyrchol
- Arolygiad AGCC o wasanaethau i bobl ag anabledd corfforol a nam synhwyraidd
- Strategaeth tai leol
- Monitro'r cynllun gweithredu arolwg gwerth gorau o dai sector preifat
- Monitro cynllun gweithredu'r arolwg gwerth gorau pobl hŷn
- Ysbytai cymunedol
- Dewisiadau ar gyfer darparu'r gwasanaeth hamdden yn y dyfodol
- Cludiant i bobl anabl
- Therapi galwedigaethol
- "Diogel Gartref" menter atal troseddu
- Arolwg o adroddiad blynyddol 2002/3 – diogelu oedolion hawdd eu niweidio
- Arolwg blynyddol – cynllun gofal cymdeithasol
- Cynllun "Dementia â Tele-ofal"